

Polisi Amgylcheddol

Mae Grŵp Prifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant, gan gynnwys Coleg Sir Gâr a Choleg Ceredigion, yn cydnabod bod materion amgylcheddol yn hanfodol i iechyd a lles pawb sy'n ymwneud â'n sefydliadau, y gymuned ehangach a'n planed yn y dyfodol. Felly rydym wedi ymrwymo i ymgorffori cynaliadwyedd ar draws ein campws, ein cwricwlwm, ein cymuned a'n diwylliant. Mae hyn yn darparu amgylchedd cyffrous, blaengar a chynaliadwy ar gyfer dysgu, gan gynnwys ystyriaeth lawn i effeithiau a chyflleoedd cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol.

I hyrwyddo'r egwyddorion hyn, bydd y Brifysgol a'r Colegau yn:

- Lleihau'r defnydd o ynni ac allyriadau sy'n cyfateb i garbon ar gyfer y Grŵp, a ddisgrifir mewn un Cynllun Rheoli Carbon.
- Cynnal ein hymrwymiad i atal llygredd, gan leihau ffynonellau rheoledig o allyriadau sy'n ffoi a chan gydymffurfio â phob deddfwriaeth amgylcheddol berthnasol sy'n gysylltiedig â gweithgareddau'r Grŵp. Lle nad oes deddfwriaeth byddwn yn anelu at gydymffurfio ag arfer da y sector.
- Llunio partneriaethau a chymryd rhan mewn rhwydweithiau i rannu profiadau a gwybodaeth am gynaliadwyedd â'r Undebau Myfyrwyr cysylltiedig a'r gymuned ehangach, a chyfrannu at drafodaethau ar faterion cynaliadwyedd.
- Annog yn weithredol a chefnogi addysgu ac ymchwil ar ddatblygu cynaliadwy ar draws y Grŵp o fewn y fframwaith Addysg ac Ymchwil ar gyfer Datblygu Cynaliadwy.
- Gwella effeithlonrwydd adnoddau gan ddefnyddio'r hierarchaeth wastraff, gan gynnwys caffael yr hyn sy'n angenrheidiol yn unig, aildefnyddio ac ailgylchu cymaint â phosibl ac osgoi anfon gwastraff i safleoedd tirlenwi.
- Parhau i amddiffyn a rheoli'r adeiladau treftadaeth a feddiannir gan y Grŵp, a gweithredu Polisi Bioamrywiaeth sydd yn amddiffyn ac yn gwella bywyd gwyllt yn weithredol.
- Gweithredu Polisi Caffael Cynaliadwy y Grŵp a lleihau allyriadau carbon sgôp tri yn y gadwyn gyflenwi.
- Cefnogi Masnach Deg ar draws ein cadwyni cyflenwi a chynnal achrediad.
- Lleihau'r milltiroedd a deithir o ganlyniad i deithiau busnes, cymudo a chludo cyflenwadau drwy weithredu'r Cynllun Teithio Fframwaith Gwyrdd ar draws y Grŵp. Annog a hyrwyddo cerdded, seiclo, defnyddio cludiant cyhoeddus a rhannu ceir wrth ochr mentrau eraill megis fideo-gynadledda.
- Lleihau'r defnydd o ddŵr trwy weithredu cynllun rheoli dŵr.
- Mabwysiadu safonau amgylcheddol uchel ar gyfer cynllunio datblygiad ein campysau a phrosiectau adeiladu ac adnewyddu; bydd pob adeilad newydd yn ceisio ennill tystysgrif 'rhagoriaeth' BREEAM neu gyfwerth. Dylid cael gafael ar ddeunyddiau sy'n lleihau cymaint â phosibl yr effaith niweidiol ar yr amgylchedd, gan ffafrio defnyddio deunyddiau sydd wedi'u hailgylchu, pan fo hynny'n briodol.
- Gwella perfformiad amgylcheddol y Grŵp yn barhaus trwy gyfrwng System Reoli Amgylcheddol unigol ardystiedig, ynghyd â Datganiad Amgylcheddol blynyddol a fydd ar gael i'r cyhoedd.